

LESTYN ap GWRGANT (fl. 1081-93), rheolwr annibynnol olaf Morgannwg

Enw: lestyn ap Gwrgant

Plentyn: Goronwy ab lestyn

Plentyn: Gruffydd ab lestyn

Plentyn: Caradog ab lestyn

Rhiant: Angharad ferch Ednowain ap Bleddyn

Rhiant: Gwrgant ab Ithel

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: rheolwr annibynnol olaf Morgannwg

Maes gweithgaredd: Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig

Awdur: Ceinwen Hannah Thomas

Mab Gwrgant ab Ithel. Ychydig a wyddys i sicrwydd amdano. Ymddengys mai Caerdydd oedd y man y rheolai ohono, eithr nid oes wybodaeth ynghylch maint y tiroedd yr oedd yn ben arnynt; ni allai fod yn bennaf gŵr ym Morgannwg hyd 1081, y flwyddyn y lladdwyd [Caradog ap Gruffydd](#), a oedd yn rheoli'r dalaith honno o c. 1075 ymlaen. Yn 1080 gŵr gweddol ddinod oedd lestyn pan oedd yn un o dystion llai pwysig dogfen yn dangos i '[Caractocus rex morgannuc](#)' roddi tir i Landaf. Ac eto, cyn ei farw, yr oedd yn ddigon pwysig i feddu 'teulu' neu osgordd dywysogaidd a oedd yn ddigon cref i halogi cysegrle Llandaf; am y weithred hon bu gorfod i lestyn dalu iawn drwy roddi tir i'r esgobaeth honno. Sylfaenodd bumed gwehelyth frenhinol Cymru; y mae mwyafrif hen deuluoedd uchelwyr Morgannwg yn hawlio disgyn ohono.

Y mae hanes adnabyddus am Sir Forgannwg - hanes sydd cyn hyned â'r 15fed ganrif o leiaf - yn cysylltu enw lestyn â'r modd y llwyddodd y Normaniaid i oresgyn y dalaith. Yn ôl yr hanes hwn llwyddodd lestyn, drwy ei gâr, [Einion ap Collwyn](#), a oedd yn alltud yn Lloegr, i gael cymorth Robert Fitzhamon yn erbyn [Rhys ap Tewdwr](#), a laddwyd gan lestyn ym Mhenrhys. Talodd lestyn i'r Normaniaid am eu cymorth eithr gwrthododd gyflawni'r addewid a roesai i [Einion ap Collwyn](#) - sef rhoddi ei ferch iddo yn wraig. Gofynnodd [Einion](#) i'r Normaniaid a ymadawsai ddychwelyd, gorchfygwyd lestyn gan y rheini a rhannwyd ei diroedd gorau, sef tiroedd rhannau isaf y wlad, yn eu plith eu hunain, gan adael y Blaeneudir yn unig i'r Cymry. Ffodd lestyn - i abaty Keynsham, yn ôl un fersiwn o'r hanes, a bu farw yno. Yn y manylion hynny lle y mae'r hanes hwn yn cyffwrdd â ffeithiau gwybyddus y mae'n hawdd profi ei fod yn anghywir; e.e. ni sylfaenwyd abaty Keynsham hyd 1169 - a lladdwyd [Rhys ap Tewdwr](#) yn ymyl Aberhonddu yn ystod wythnos y Pasg, 1093.

Awdur

Ceinwen Hannah Thomas, (1911 - 2008)

Ffynonellau

G. T. Clark, *The land of Morgan being a contribution towards the history of the lordship of Glamorgan* (Llundain 1883), 6, 30, 38, 77, 131

G. T. Clark, *Limbus Patrum Morganiae et Glamorganiae* (1886), 23-4, 124, 129

Oxford Dictionary of National Biography

Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches between the years 1586 and 1613, under the authority of Clarencieux and Norroy, two kings at arms (Llandoverly 1846), ii, 20, 56-7

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), 402, 440

John Leland, *The Itinerary in Wales of John Leland in or about the years 1536-1539* (London 1906)

The Text of the Book of Llan Dâv (Oxford 1893), 271-3

Rice Merrick, *Morganiae Archaographia: A book of Glamorganshire antiquities* (Broadway 1825), 3, 6-8, 12-23, 43, 50-1

L. D. Nicholl, *The Normans in Glamorgan, Gower and Kidweli* (Caerdydd 1936), xiii, 18, 36, 67-180

Annals and Antiquities of the Counties and County Families of Wales, 239, 488, 490

Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1899 - 1900, 145-8, 162

G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (1948), 26, 34, 184-91, 203-4, 209

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [lestyn ap Gwrgant](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q1087998](https://www.wikidata.org/wiki/Q1087998)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

